The Wildlife Trusts



# Dod â Natur yn Ôl

## Strategaeth yr Ymddiriedolaethau Natur

# 2030

Mae angen i ni adfer byd natur ar raddfa fyd-eang, ar y tir ac yn y môr. Ac mae angen iddo ddigwydd nawr. Mae Strategaeth 2030 yn darparu'r fframwaith lefel uchel ar gyfer sut rydym yn bwriadu mynd ati i wneud hyn.



# Gweithredu Lleol. Effaith Gyfunol. Newid Byd-eang.

**Rydym yn wynebu 'argyfwng hinsawdd ac ecolegol' – ymadrodd rydym wedi'i glywed droeon yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan wyddonwyr a phlant ysgol fel ei gilydd. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym yn gweld tystiolaeth gynyddol o'r tarfu mae hyn yn ei achosi[1], o ddigwyddiadau tywydd eithafol i ddirywiad gwasanaethau ecosystemau fel peillio, rheoli llifogydd yn naturiol, a ffrwythlondeb pridd. Ni allwn ddatrys un argyfwng heb fynd i'r afael â'r llall – mae adferiad byd natur yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd.**

Er mwyn sicrhau adferiad byd natur, nid yw'n ddigon bellach meddwl am arafu colli'r byd naturiol a diogelu'r hyn sy'n weddill o'n bywyd gwyllt. Mae angen i ni atal a gwyrdroi'r dirywiad, a rhoi byd natur mewn adferiad, ar raddfa ac yn gyflym, er mwyn helpu i adfer bioamrywiaeth, sefydlogi'r hinsawdd, sicrhau diogelwch bwyd, diogelu iechyd a lles biliynau o bobl, a llawer mwy hefyd.

Yn y pen draw, mae ein heconomi fyd-eang yn dibynnu ar fyd natur, ac nid y ffordd arall. Mae dyfodol bywyd gwyllt wedi'i gysylltu'n annatod â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mae'r ddau yn hollbwysig i'r economi fyd-eang[2]. Mae'n bryd i ddynoliaeth ddechrau ymddwyn felly os ydym eisiau osgoi erydu sylfeini cynnydd dynol.

Mae angen i ni adfer byd natur ar raddfa fyd-eang, ar y tir ac yn y môr. Ac mae angen iddo ddigwydd nawr.

Dim ond pan fydd cymunedau lleol yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ddod yn gyfryngau newid y bydd hyn yn digwydd, a phan fydd unigolion a busnesau ar draws cymdeithas yn gweithredu gyda'i gilydd. Ni ddylai adferiad byd natur fod yn rhywbeth a wneir i bobl; rhaid iddo gael ei wneud gan bobl - cymunedau cynhwysol, croesawgar, amrywiol a chynyddol o bobl - os yw'n mynd i ddigwydd ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol ac os yw'n mynd i bara.

Yn wyneb rhagfynegiadau brawychus, mae llawer o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn brwydro ar lefel emosiynol gyda brys yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Byddwn yn helpu pobl i sianelu eu pryder i gamau gweithredu ystyrlon, cyfarfod pobl eraill o'r un anian a chymryd camau i helpu i atal newid yn yr hinsawdd a diogelu byd natur.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi'u gwreiddio'n gadarn yn eu cymunedau lleol, yn cael eu cefnogi gan ein haelodau ac yn atebol iddynt. Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o berchnogion tir, ffermwyr, pysgotwyr, busnesau, ysgolion, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau newid gwirioneddol ar lawr gwlad.

Drwy gydweithio fel yr Ymddiriedolaethau Natur a ffrwyno ein heffaith ar y cyd, gallwn ddychmygu, ymgyrchu ac eiriol dros newid, gan gydnabod, cryfhau a defnyddio ein safle ar draws pedair gwlad y DU a'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron i gefnogi'r mudiad byd-eang dros adferiad byd natur.

*Dyma ein cyfraniad unigryw: gweithredu yn lleol, creu effaith gyfunol, fel rhan o stori fyd-eang.*

Gall yr Ymddiriedolaethau Natur fod yn falch a manteisio i'r eithaf ar eu hanes ar lawr gwlad, gyda chefnogaeth y gymuned. Fel yr unig fudiad dros fyd natur sydd wedi'i sefydlu ledled y DU a'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron, a gyda dull pedair gwlad o weithredu gyda'n gwaith, rydym yn y sefyllfa orau i fynd i'r lefel nesaf o ran newid wedi'i greu gan bobl a rhoi byd natur mewn adferiad, yn gyflym ac ar raddfa, wrth gyflawni gweledigaeth gyfunol ar y cyd, ac yn unol â Degawd y Cenhedloedd Unedig ar Adfer Ecosystemau[3].

Gwnawn hynny i ddathlu gwerth cynhenid natur, ond hefyd oherwydd bod pobl yn rhan o, ac yn gwbl ddibynnol ar, fyd natur – nid ar wahân iddo.

**Craig Bennett**, Prif Weithredwr
*Ar ran yr holl Ymddiriedolaethau Natur*



# Ein gweledigaeth yw byd naturiol ffyniannus, gyda'n bywyd gwyllt a'n cynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phawb wedi'u hysbrydoli i gymryd rhan yn adferiad byd natur.

## Ein pwrpas

Ein pwrpas yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i gymryd camau ystyrlon dros natur, a chreu cymdeithas gynhwysol lle mae natur o bwys.

## Ein dull o weithredu

Rydym yn uchelgeisiol yn ein dyhead nid yn unig i arafu ond i wyrdroi'r dirywiad mewn natur. Rydym yn siarad â llais beiddgar a hyderus, i ddweud y gwir am gyflwr natur a'r hyn sydd angen ei wneud i'w roi mewn adferiad.

Fel mudiad ar lawr gwlad, rydym wedi ein gwreiddio'n gadarn yn ein cymunedau lleol lle rydym yn gofalu am lefydd gwyllt, gan gynyddu dealltwriaeth pobl o'r byd naturiol a'r cysylltiad ag ef, ar y tir ac yn y môr.

Rydym yn ceisio sefydlu achos cyffredin a gweithio mewn partneriaeth ag eraill, ar lefel leol a ledled y DU, i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o wneud yr hyn sy'n iawn dros natur a sicrhau effaith i gefnogi ein gweledigaeth.

Rydym yn arddangos yr hyn sy'n bosibl, ac yn ysbrydoli, grymuso a galluogi pobl o bob oedran, cefndir, diwylliant, hunaniaeth a gallu i wireddu ein gweledigaeth gyda ni, gan gofleidio amrywiaeth ein cymdeithas i newid y byd naturiol er gwell.

Fel rhwydwaith o Ymddiriedolaethau Natur, rydym yn gweithio i sicrhau bod ein gweithredoedd lleol, a'n gwaith drwy bedair gwlad y DU, yn dod at ei gilydd ac yn creu effaith gyfunol ac yn helpu i fynd i'r afael â materion byd-eang. Ein gwahaniaethau yw ein cryfder, ond rydym hefyd yn ymdrechu i fod yn fwy na'r elfennau unigol.



## Ein Nodau Strategol

1. Mae byd natur yn adfer gyda digonedd o fywyd gwyllt amrywiol a phrosesau naturiol sy'n creu tir a morluniau gwylltach lle mae pobl a byd natur yn ffynnu.
2. Mae pobl yn cymryd camau ystyrlon dros natur a'r hinsawdd, gan arwain at wneud penderfyniadau gwell ar gyfer yr amgylchedd ar lefel leol ac ar draws pedair gwlad y DU.
3. Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

## Ein Trawsnewid Strategol

1. Cefnogi a datblygu'r Ymddiriedolaethau Natur fel actorion annibynnol cadarn ac effeithiol.
2. Gweithio'n effeithiol fel rhwydwaith gwasgaredig a mudiad cyfunol.
3. Ysbrydoli trefnu a symud cymunedol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.
4. Ymgymryd â thrawsnewid digidol 'gwraidd a changen'.
5. Sicrhau newid sylweddol yng ngraddfa ac amrywiaeth y cyllid ar gyfer adferiad byd natur.

## Ein Blaenoriaethau Sy'n Galluogi

1. Cael trefn ar ein tŷ ein hunain.
2. Sicrhau bod ein gwarchodfeydd natur, asedau tir, ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn sylfaen i adferiad byd natur.
3. Datblygu polisïau clir a chyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
4. Buddsoddi mewn rhwydweithiau staff a gwirfoddolwyr medrus ac amrywiol, a chreu diwylliant dysgu ar draws y mudiad.
5. Siarad gyda llais beiddgar a hyderus, gan gynyddu ein heffaith a'n dylanwad ymhellach.

# Tri
# Nod Strategol

Mae ein tri nod strategol yn nodi'r hyn rydym yn credu sydd angen digwydd erbyn 2030 er mwyn gwireddu ein gweledigaeth hirdymor o fyd naturiol ffyniannus. Er eu bod wedi'u datgan fel nodau gwahanol, maent yn rhyngddibynnol ac yn hynod gysylltiedig, a bydd angen cyflawni'r tri er mwyn sicrhau adferiad byd natur.





N1

*Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur ar flaen y gad o ran yr ymdrechion i wyrdroi'r dirywiad ym myd natur, ar y tir ac yn y môr.*

# Natur mewn adferiad

**Mae'r DU yn un o'r gwledydd sydd wedi wynebu'r colledion mwyaf o ran byd natur yn y byd, ac mae gweddillion cynyddol ddarniog o gynefin bywyd gwyllt wedi'u hynysu ar draws ein tir a'n môr. Rydym yn gwybod bod 41% o'n rhywogaethau bywyd gwyllt wedi dirywio'n helaeth ers y 1970au cynnar, ac mae 15% o'n rhywogaethau dan fygythiad o ddifodiant.[4]**

O ystyried y colledion hanesyddol a mwy diweddar hyn, nid yw bellach yn ddigon i ddim ond gwarchod y bywyd gwyllt sydd ar ôl. Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur ar flaen y gad o ran yr ymdrechion i wyrdroi'r dirywiad ym myd natur, ar y tir ac yn y môr.

Byddwn yn sicrhau adferiad cadarn i fyd natur drwy greu mwy o le iddo a chysylltu cynefinoedd ar raddfa tirwedd, gan adfer y digonedd o fyd natur a'i gael i weithio eto; er enghraifft, gwneud yn siŵr bod ein gwlybdiroedd yn wlyb, ac ailgyflwyno rhywogaethau 'allweddol' sydd ar goll.

Gan weithio gyda phartneriaid a dylanwadu ar eraill, o ffermwyr a physgotwyr i fusnesau a gwleidyddion, byddwn yn adfer prosesau naturiol ac yn ailgysylltu tir a morluniau gwylltach i ddod â'n bywyd gwyllt yn ôl ar raddfa, a chreu llefydd lle gall pobl a natur ffynnu gyda'i gilydd.

**HEDDIW**

Mae 41% o'n rhywogaethau bywyd gwyllt wedi dirywio llawer iawn ers dechrau'r 1970au.

**EIN MESURAU EFFAITH**

### Bydd natur mewn adferiad

Bydd o leiaf 30% o'r tir a'r môr yn cael eu rheoli'n weithredol ar gyfer adferiad byd natur ym mhob rhan o'r DU.[5/6]

### Bydd bywyd gwyllt yn doreithiog ac yn amrywiol

Bydd cyfoeth ac amrywiaeth y bywyd gwyllt yn cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU.

### Bydd prosesau naturiol yn gweithredu'n effeithiol

Bydd prosesau naturiol a systemau ecolegol y DU yn fwy cyflawn ac yn gweithredu'n sylweddol well ar y tir, mewn dŵr croyw ac yn y môr.





## NOD 1

**2030**

Mae natur mewn adferiad, gyda bywyd gwyllt helaeth ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a morluniau gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu.



N2

# Gweithredu ystyrlon

**Pobl yw'r allwedd i adferiad byd natur. Mae arnom ni angen natur, ac eto rydym wedi ein datgysylltu fwyfwy oddi wrth ein hamgylchedd naturiol[7]. Fel y dywedodd Syr David Attenborough "Ni fydd unrhyw un yn gwarchod rhywbeth nad yw'n poeni amdano; ac ni fydd unrhyw un yn poeni am yr hyn nad yw wedi'i brofi erioed."**

Mae llawer o bobl yn teimlo'n anniogel ac nad oes croeso iddynt mewn mannau gwyrdd neu'n methu cael mynediad i lefydd gwyllt yn agos at ble maent yn byw. Yn rhy aml, mae hyn yn gysylltiedig â phroblemau sylfaenol mewn cymdeithas, fel gwahaniaethu, braint, neu ormes. Rhaid i sector yr amgylchedd wneud mwy i oresgyn hyn ac, yn yr Ymddiriedolaethau Natur, rydym eisiau chwarae ein rhan i sicrhau bod ein diwylliant mewnol yn gynhwysol.

Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio i ymgysylltu â phobl o bob oedran, hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu ac yn eu grymuso, gan eu cefnogi i werthfawrogi, mwynhau, siarad a gweithredu dros fywyd gwyllt. Byddwn yn cysylltu pobl â mannau naturiol ac yn meithrin eu hymdeimlad o berthyn ynddynt drwy well ymgysylltu a threfnu cymunedol, a chreu llefydd gwyllt diogel a chynhwysol yn agos at ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Rydym yn gwybod bod rhai sectorau o'r gymdeithas mewn mwy o berygl nag eraill oherwydd effeithiau heriau byd-eang, yn enwedig pobl ifanc a fydd yn teimlo effeithiau'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn fwy yn ystod eu hoes a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Ar gyfer y grwpiau hyn, mae materion yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol wedi'u hymgorffori o fewn materion hinsawdd ac ecolegol ehangach.

Byddwn yn ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, yn gwrando ar ein cefnogwyr, yn cysylltu pobl â'i gilydd, ac yn eu galluogi a'u grymuso i sicrhau newid gwirioneddol, fel ein bod yn gallu sbarduno gwell penderfyniadau ar gyfer byd natur ar draws y byd gwleidyddol a chorfforaethol, ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

*Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn gweithio i ymgysylltu â phobl o bob oedran, hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu ac yn eu grymuso, gan eu cefnogi i werthfawrogi, mwynhau, siarad a gweithredu dros fywyd gwyllt.*

HEDDIW

Mae llawer o bobl yn teimlo'n anniogel ac nad oes croeso iddynt mewn mannau gwyrdd neu'n methu cael mynediad i lefydd gwyllt yn agos at ble maent yn byw.

EIN MESURAU EFFAITH

**Pobl yn gweithredu**

Byddwn yn creu sgil-effaith o bobl a chymunedau dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur, i gyflawni 1 o bob 4 o bobl yn gweithredu dros fyd natur a'r hinsawdd.

**Mae'r gweithredu yn ystyrlon**

Byddwn yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i gymryd camau ystyrlon i sbarduno adferiad byd natur, yn lleol ac yn genedlaethol.

**Trefnu a grymuso**

Byddwn yn dod yn fudiad blaenllaw o ran trefnu a grymuso pobl a chymunedau i gymryd camau ystyrlon dros y byd natur maent yn ei garu.



NOD 2

2030

Mae pobl yn cymryd camau ystyrlon dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at wneud gwell penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd ar lefel leol ac ar draws pedair gwlad y DU.



N3

# Datrysiadau seiliedig ar natur

**Yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, mae dynoliaeth yn wynebu heriau lluosog yn sgil dymchweliad systemau naturiol a hinsawdd fyd-eang sy'n cynhesu[8]. Mae tystiolaeth hefyd o ddirywiad amlwg yn lles corfforol a meddyliol rhai pobl, yn enwedig mewn rhannau o gymdeithas sy'n fwy agored i niwed.**

Ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â'r problemau hyn oni bai ein bod yn gadael i fyd natur helpu.

Yn rhy aml o lawer, nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol nac yn llwyr werthfawrogi'r rôl y gallai ac y dylai byd natur ei chwarae wrth helpu cymdeithas i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac ysgogi newid cadarnhaol. Nid yw systemau naturiol sydd wedi'u diraddio a'u hegsbloetio'n gallu darparu'r datrysiadau seiliedig ar natur sy'n rhan mor fawr o'r ateb, ac nid yw pobl a chymunedau sydd wedi'u datgysylltu oddi wrth natur yn gallu cael mynediad llawn at yr ystod eang o fuddion y gall natur eu cyflwyno i'n bywydau nac yn eu gwerthfawrogi.

Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, yn adfer ein hecosystemau naturiol ar raddfa ac yn dangos yr hyn sy'n bosibl, fel bod cynefinoedd naturiol yn gallu storio a dal carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd, darparu gwasanaethau peillio, caniatáu adferiad byd natur yn y môr, a chefnogi gwelliannau i les corfforol a meddyliol pobl.

Byddwn yn defnyddio ein llais ar y cyd i eiriol dros sut—fel cymdeithas—y gallem ac y dylem fod yn defnyddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ac yn gweithio gydag asedau naturiol i helpu i fynd i'r afael â heriau lluosog a sbarduno newid byd-eang cadarnhaol.

*Gall cynefinoedd naturiol storio a dal carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd, darparu gwasanaethau peillio, caniatáu adferiad byd natur yn y môr, a chefnogi gwelliannau i les corfforol a meddyliol pobl.*

HEDDIW

Mae dynoliaeth yn wynebu heriau lluosog oherwydd dymchweliad systemau naturiol a hinsawdd fyd-eang sy'n cynhesu.

EIN MESURAU EFFAITH

### Mae natur yn ganolog i iechyd a lles pobl

Bydd natur yn chwarae rhan fwy arwyddocaol wrth gadw pobl yn iach a lleihau anghydraddoldeb iechyd; bydd o leiaf 30% yn fwy o bobl yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau awyr agored mewn mannau gwyrdd a glas naturiol hygyrch o ansawdd uchel yn agos at ble maent yn byw.

### Mae natur yn ganolog i sefydlogi'r hinsawdd

Bydd byd natur yn chwarae rhan lawer mwy arwyddocaol wrth sefydlogi'r hinsawdd fyd-eang; bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr net y DU o ddefnydd tir wedi haneru ac ni fydd datblygiadau ar y môr yn achosi unrhyw niwed pellach i gynefinoedd morol sy'n dal carbon.

### Mae natur yn ganolog i reoli dŵr

Bydd natur yn chwarae rhan fwy arwyddocaol wrth leihau risgiau llifogydd, sychder a thywydd eithafol; bydd o leiaf 30% o wariant y DU ar amddiffynfeydd rhag llifogydd ar ddatrysiadau llifogydd naturiol a bydd rôl byd natur wrth ddarparu dŵr glân yn cael ei hadlewyrchu ym mhob penderfyniad buddsoddi gan gwmnïau dŵr.

### Mae natur yn helpu i wella diogelwch bwyd

Bydd natur yn chwarae rhan fwy arwyddocaol wrth gynyddu diogelwch bwyd; bydd nifer y pryfed peillio wedi cynyddu o leiaf 10%, bydd priddoedd yn adfer a bydd yr holl stociau o bysgod yn cynyddu.





NOD 3

2030

Mae natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.







# Pum Cam Trawsnewid Strategol

Er mwyn cyflawni'r nodau uchelgeisiol hyn bydd angen i'r Ymddiriedolaethau Natur ddatblygu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r strategaeth hon yn nodi pum cam trawsnewid o ran galluoedd cyfunol yr Ymddiriedolaethau Natur sy'n hanfodol i gyflawni ein nodau strategol.

Bydd pob cam trawsnewid yn gofyn am adnoddau, amser, arweinyddiaeth, penderfyniad a chydlynu i'w gwireddu.

Gyda'i gilydd, byddant nid yn unig yn ein helpu i gyflawni ein nodau ar gyfer 2030, ond hefyd byddant yn arwain at fudiad Ymddiriedolaethau Natur llawer cadarnach a mwy effeithiol ar gyfer y tymor hwy.

T1








**Y goeden iawn yn y lle iawn**
Plannu coed mewn ffordd ddethol mewn lleoliadau wedi'u hymchwilio'n ofalus

# Cydweithio'n annibynnol

## Cam Trawsnewid 1
Cefnogi a datblygu'r Ymddiriedolaethau Natur fel actorion annibynnol cadarn ac effeithiol.

**Mae'r strategaeth hon yn galluogi'r Ymddiriedolaethau Natur i weithio gyda'i gilydd tuag at ein nodau strategol cyffredin yn fwy nag ar unrhyw adeg arall yn ein hanes. Mae hyn yn dechrau gyda mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur yn dod at ei gilydd i gefnogi a galluogi pob Ymddiriedolaeth i chwarae ei rhan.**

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i rannu arfer gorau, sgiliau a gwybodaeth, a chroesawu datrysiadau a ffyrdd newydd o weithio i sicrhau nad oes unrhyw Ymddiriedolaeth Natur yn cael ei gadael ar ôl.

Rydym wedi ymrwymo i greu rhwydwaith effeithlon a pharchus sy'n cael ei gydlynu'n dda fel bod yr holl Ymddiriedolaethau Natur yn cael eu cefnogi i weithredu ar lefel gyson, gan gyflawni newid sy'n cael effaith ar draws ein mudiad a'r holl ardaloedd mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gweithredu ynddynt. Byddwn yn edrych lle mae cyfleoedd i grwpiau o Ymddiriedolaethau rannu neu uno swyddogaethau 'swyddfa gefn' a swyddogaethau eraill, er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd a meithrin galluoedd sefydliadol nad ydynt efallai'n bosibl wrth weithredu ar eu pen eu hunain.

Byddwn yn helpu ein gilydd i sicrhau bod y strwythurau arweinyddiaeth a llywodraethu o fewn yr Ymddiriedolaethau Natur ac ar draws y mudiad yn seiliedig ar systemau cadarn sy'n hyrwyddo diwylliant o rannu, dysgu, parch ac ymddiriedaeth ar y cyd, fel ein bod yn gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer newid.

*Ein cam gweithredu i drawsnewid fydd rhoi llawer mwy o ffocws ar ddatblygu Ymddiriedolaethau Natur unigol, gan sicrhau bod ein holl aelodau yn cael eu cefnogi i fod yn actorion effeithiol ar gyfer adferiad byd natur. Fel mudiad, byddwn yn cefnogi Ymddiriedolaethau Natur ar y cyd i addasu a rheoli eu systemau, eu strwythurau a'u dulliau gweithredu er mwyn gallu diwallu anghenion sy'n newid a hybu gallu, hyblygrwydd a mwy o arloesi.*

**ARWYDDION LLWYDDIANT**

### Perchnogaeth leol
Mae gan bob Ymddiriedolaeth Natur ei strategaeth ei hun ar waith gyda nodau clir, wedi'u blaenoriaethu'n lleol ac yn eiddo lleol sy'n cyd-fynd â Strategaeth 2030 yr Ymddiriedolaethau Natur ac sy'n cyfrannu ati.

### Gweithredu cyson
Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn cydweithio i alluogi pob aelod i weithredu ar lefel gyson ar draws y mudiad ac maent yn cyfrannu tuag at ein gweledigaeth ar y cyd.

### Y Gallu i Addasu
Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn gallu manteisio ar gyfleoedd newydd a chyfleoedd sy'n datblygu ac addasu'n effeithiol i ddigwyddiadau allanol sy'n newid.

T2

# Datblygu rhwydwaith cydlynol

## Cam Trawsnewid 2
Gweithio'n effeithiol fel rhwydwaith gwasgaredig a mudiad cyfunol.

**Cryfder pennaf yr Ymddiriedolaethau Natur yw ein bod yn rhwydwaith gwybodus ac annibynnol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda phob Ymddiriedolaeth Natur wedi'i gwreiddio'n gadarn yn ei chymuned leol.**

Nid yw'r problemau sy'n ein hwynebu, fel bioamrywiaeth yn dirywio a hinsawdd yn cynhesu, yn cadw at ffiniau gwleidyddol, gweinyddol na sefydliadol. Rydym yn gwybod y bydd cymhlethdod a graddfa'r heriau – a'r cyfleoedd – y byddwn yn eu hwynebu yn ystod y 10 mlynedd nesaf a thu hwnt yn gofyn i ni drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel ffederasiwn a rhwydwaith gwasgaredig.

Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agosach fel un mudiad o Ymddiriedolaethau Natur.

Byddwn yn gwella'r ymwybyddiaeth o undod rhwng ein haelodau, gan hyrwyddo diwylliant o dryloywder, ymddiriedaeth ac undod. Byddwn yn meithrin hyder a pharch rhwng pob rhan o'n mudiad fel sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau mwy effeithiol ac effeithlon. Byddwn yn dod o hyd i fodelau newydd o gydweithio ac yn darparu gofod cynhwysol, adeiladol a pharchus ar gyfer adborth fel bod llais pawb yn cael ei glywed.

*Ein cam gweithredu i drawsnewid fydd datblygu a chroesawu modelau cydweithio newydd sy'n dryloyw, yn uniongyrchol ac yn hyblyg ac yn ein galluogi i fod yn fwy cydlynol fel mudiad.*

Yn ogystal â gweithio'n agosach gyda'n gilydd, mae angen i ni ymgysylltu ag ystod ehangach a mwy amrywiol o bartneriaid ac actorion o fewn ein cymunedau ac ar draws ffiniau gweinyddol, gan gofleidio dulliau cydweithredol, aml-randdeiliaid o weithredu i fynd i'r afael ag achosion cyffredin a chyflawni mwy o effaith.

Byddwn yn agor ein hunain i fwy o gysylltiadau a phartneriaethau trawsnewid sy'n blaenoriaethu gweithredu ar y cyd a datrys problemau ar y cyd, gan gynnwys y rhai y tu allan i'r sector cadwraeth traddodiadol, prif ffrwd. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agosach â chymunedau, perchnogion tir, ffermwyr, pysgotwyr, busnesau a sefydliadau eraill i sicrhau bod byd natur yn adfer ym mhob man.

Byddwn yn sicrhau mai ein gwybodaeth leol a'n cysylltiad â chymunedau amrywiol y DU a'r Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron yw ein cryfder a'n bod, gyda'n gilydd, yn fwy na'r elfennau unigol.


ARWYDDION LLWYDDIANT

### Meithrin cysylltiadau
Mae cysylltiadau cynyddol rhwng yr Ymddiriedolaethau Natur ar bob lefel yn cael effaith fesuradwy ar ein heffaith.

### Cofleidio newid
Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn cofleidio newidiadau strwythurol ac ymddygiadol, gan arwain at fwy o ddatblygu ar y cyd a chreu mwy o gyfleoedd i gydweithio.

### Rhannu gwybodaeth
Mae cymunedau ymarfer cadarn ac effeithiol yn ffynnu gan hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr ar draws mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur.

### Gweithio mewn partneriaeth
Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi ehangu cwmpas y partneriaid a'r rhwydweithiau maent yn ymgysylltu â hwy yn sylweddol, ac mae tystiolaeth o effaith well o ganlyniad.







T3

# Grymuso ein cymunedau

## Cam Trawsnewid 3
Ysbrydoli trefnu a symud cymunedol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

**Rydym yn gwybod, os yw natur i gael ei hadfer ar raddfa, bod arnom angen llawer mwy o bobl ar ochr natur. Bydd gwirfoddoli a symudiad dinesig yn allweddol i greu cymdeithas fwy cynhwysol lle mae natur o bwys, a gall Ymddiriedolaethau Natur sydd wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau lleol fod yn hwyluswyr effeithiol ac ysbrydoledig ar gyfer newid.**

Fodd bynnag, rydym hefyd yn sylweddoli bod datblygiadau mewn technolegau digidol wedi chwyldroi union natur 'cymuned', a bod y ffordd y mae pobl yn cysylltu, yn trefnu ac yn symud i sicrhau newid yn esblygu'n barhaus.

Mae gan bob Ymddiriedolaeth Natur rwydwaith ymroddedig o wirfoddolwyr brwd sy'n hanfodol i'n gwaith. Mae'n rhaid i ni barhau i gofleidio'r gwaith maent yn ei wneud gan ehangu ein cwmpas i'r llu o bobl yn ein cymunedau sy'n ceisio symud mewn ffordd wahanol i greu byd gwell i natur. Byddai'n rhaid i hyn gynnwys cynnig ystod ehangach o gyfleoedd, yn enwedig i bobl ifanc. Mae angen i ni ddeall gwahanol gymhellion gwahanol rannau o gymdeithas a pharchu eu perthynas bersonol â byd natur, gan ddefnyddio empathi a dealltwriaeth o sut maent yn gwerthfawrogi natur, a defnyddio hyn fel sail i'n dulliau gweithredu.

Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn gyson mewn gweithgareddau rheolaidd o ansawdd da, gyda rhai ohonynt yn cael eu harwain gan bobl ifanc, ac yn ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau. Byddwn yn eu huwchsgilio ar gyfer eu datblygiad personol, gan annog cysylltiad cadarnach â byd natur ac ymdeimlad o gyfrifoldeb amdano. Rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl ifanc yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Byddwn yn gweithio gyda hwy i greu newid cadarnhaol o fewn ein mudiad ac yn eu cymunedau ar gyfer eu bywydau a'r amgylchedd.

Gan adeiladu ar y dull 'Tîm Gwyllt' o weithredu sydd eisoes yn cael ei arloesi gan rai Ymddiriedolaethau Natur, rydym wedi ymrwymo i ailfframio gwirfoddoli a gweithredu cymunedol, i ddod yn fwy agored a chynhwysol, ac i gael ein harwain gan ein cefnogwyr. Byddwn yn datblygu dulliau mwy hyblyg, agored ac ategol o weithredu fel ein bod yn ehangu ein sgiliau ochr yn ochr â bod yn rheolwyr gwirfoddol a gweithio mwy fel hwyluswyr cymunedol; gan alluogi, ysbrydoli a sbarduno criw newydd o drefnwyr cymunedol ar gyfer byd natur.

Byddwn yn ymgysylltu â phobl o ystod ehangach o oedrannau, cefndiroedd, diwylliannau, hunaniaethau a galluoedd, ac yn gwrando ac yn dysgu fel ein bod yn deall y rhwystrau i gysylltiad pobl â byd natur a'r Ymddiriedolaethau Natur ac yn mynd i'r afael â hwy fel bod ein gwaith yn fwy cynhwysol. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i ddysgu am fyd natur drwy brofiadau person cyntaf, gan arwain at sut gallant weithredu – boed hynny drwy addysg ffurfiol neu ddysgu anffurfiol.

*Ein cam gweithredu i drawsnewid fydd darparu llwyfan a all hysbysu, cysylltu a chefnogi ymdrechion y cymunedau eu hunain i adfer natur, gyda ffocws arbennig ar ymdrechion pobl ifanc a grwpiau hunandrefnu, gan greu cyfleoedd iddynt gamu i fyd gweithredu ac ymgyrchu cymunedol.*

Byddwn yn sicrhau mwy o gysylltedd rhwng ein cefnogwyr, gan gynnwys ar draws ffiniau a rhwng gwahanol grwpiau a chymunedau, gan ddefnyddio dulliau digidol yn fwy effeithiol a'u cefnogi i ddatblygu mentrau ac ymgyrchoedd newydd i ddiogelu ac adfer bywyd gwyllt.







ARWYDDION LLWYDDIANT

### Ehangu cyfranogiad
Nifer ac amrywiaeth gynyddol o wirfoddolwyr a chefnogwyr sy'n gysylltiedig ac yn ymgysylltu â gweithgareddau rheolaidd o ansawdd da sy'n ymateb i'w hanghenion a'u dyheadau.

### Galluogi gweithredu lleol
Mae mwy o lysgenhadon, cynrychiolwyr a chefnogwyr o Ymddiriedolaethau Natur wedi'u gwreiddio mewn grwpiau gweithredu lleol, gan rymuso a chefnogi pobl i weithredu yn lleol.

### Cefnogi'r genhedlaeth nesaf
Tystiolaeth feintiol ac ansoddol gadarn ein bod yn cysylltu, yn gweithio gyda'n gilydd ac yn cefnogi cenhedlaeth newydd o bobl ifanc ac amrywiol sy'n creu newid cymunedol.

### Creu arweinwyr newydd
Mae niferoedd cynyddol o bobl o bob oedran, cefndir, diwylliant, hunaniaeth a gallu, yn enwedig pobl ifanc, yn cael eu cynnwys yn ein prosesau gwneud penderfyniadau ac mae ganddynt swyddogaethau arwain.

T4



**Pori heb ffens**
Pori gan wartheg gan ddefnyddio system ffensio rithwir







**Dronau**
Gwella technegau arolygu a monitro

# Cofleidio diwylliant digidol

## **Cam Trawsnewid 4**
Ymgymryd â thrawsnewid digidol 'gwraidd a changen'.

**Mae datblygiad cyflym technolegau digidol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cyflwyno cyfleoedd digynsail i gynyddu effaith ein gwaith, i fabwysiadu dulliau arloesol o weithrdu gyda heriau newydd a phresennol, ac i ehangu a gwella ein hymgysylltiad. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod y datblygiadau hyn yn dod â heriau, bygythiadau a gwendidau newydd y bydd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod y degawd nesaf.**

Rydym wedi ymrwymo i dreialu ac arbrofi gyda thechnolegau newydd ac arloesol, gan sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau digidol i sicrhau'r effeithiau gorau posibl, o ddefnydd deallus a strategol o wybodaeth geo-ofodol a data ecolegol i ymgysylltu mwy â chynulleidfaoedd newydd, a hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio ar draws ein mudiad.

Byddwn yn hyrwyddo diwylliant digidol i drawsnewid ein systemau a'n seilwaith presennol, ac yn cynyddu gallu ein mudiad i storio a thrin data.

Byddwn yn rhagweithiol o ran sganio'r gorwel am gyfleoedd ym maes arloesi digidol, yn ogystal â risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn meysydd fel moeseg data, mynediad, diogelu a hawliau, a diogelwch gwybodaeth. Byddwn yn darparu'r hyfforddiant a'r adnoddau i'n staff i ddatblygu eu sgiliau a'u gallu digidol, gan feithrin gwytnwch ein mudiad mewn tirlun digidol allanol sy'n newid.

*Ein cam gweithredu i drawsnewid fydd cofleidio ac integreiddio'r diwylliant angenrheidiol, strwythurau a thechnoleg i gefnogi trawsnewid digidol gwraidd a changen. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau a galluoedd digidol ein haelodau, yn ogystal â mewn systemau a seilwaith sy'n meithrin ein gallu i storio a thrin data.*

ARWYDDION LLWYDDIANT

**Mwy ymwybodol**
Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn deall gwerth ac effaith seilwaith digidol effeithiol.

**Mwy gwybodus**
Mae gwybodaeth a dadansoddiad o dechnolegau digidol ac arloesi'n galluogi ac yn symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol.

**Mwy medrus**
Mae staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaethau Natur wedi gwella eu sgiliau a'u gallu mewn datrysiadau digidol yn sylweddol.

T5

# Cyllido gwell dyfodol

## Cam Trawsnewid 5

Creu newid mawr o ran graddfa ac amrywiaeth y cyllid ar gyfer adferiad natur.

Rydym yn gwybod bod cymhlethdod a chwmpas cyflawni ein gweledigaeth yn fwy nawr nag y bu erioed, oherwydd graddfa a brys yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, a'i berthnasedd i fywydau a bywoliaeth pobl. Bydd cyflawni'r strategaeth hon ar draws y mudiad yn gofyn am newid sylweddol yng ngraddfa ac amrywiaeth y cyllid sydd ar gael ar gyfer adferiad byd natur.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn bodoli diolch i'r sylfaen ariannu gadarn sy'n cael ei darparu gan ein haelodau ffyddlon, sydd bellach yn fwy nag 870,000. Mae hyn wedi'i adeiladu'n raddol drwy weithgareddau codi arian a marchnata ar lefel leol – dull o weithredu a fydd bob amser yn allweddol i gryfder a hynodrwydd ein mudiad.

Rydym yn gwybod, fodd bynnag, bod llawer o'r dulliau codi arian a recriwtio aelodaeth sy'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus ar hyn o bryd gan elusennau eraill – yn arbennig codi arian digidol – yn effeithiol oherwydd yr arbedion maint sydd ar gael yn unig drwy raglenni codi arian cyfunol sy'n cael eu cydlynu.

*Ein cam gweithredu i drawsnewid fydd cydweithio'n agosach fel ein bod yn gallu ategu ein rhaglenni codi arian lleol â dulliau codi arian digidol ar raddfa fawr, i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a sicrhau twf ychwanegol cadarn yn sylfaen aelodaeth yr Ymddiriedolaethau Natur.*

Er mwyn sicrhau'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r strategaeth hon, bydd hefyd angen i'r Ymddiriedolaethau Natur edrych ar bartneriaethau a modelau busnes newydd, ffyrdd newydd o weithio, a ffynonellau eraill o gyfalaf a chyllid – gan ddiogelu ein hannibyniaeth a'n didwylledd.

ARWYDDION LLWYDDIANT

### Mynediad i adnoddau

Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur fynediad at ystod ehangach a mwy amrywiol o adnoddau, sy'n parhau i fod yn egwyddorol ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd.


### Arloesi

Mewn cydweithrediad â phartneriaid, mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn buddsoddi mewn modelau cyllido arloesol ac yn eu rhoi ar waith, gan gyd-fynd â'n gweledigaeth o fyd naturiol ffyniannus.

### Ffrydiau refeniw newydd

Mae codi arian digidol yn rhoi sylfaen aelodaeth ehangach a mwy amrywiol i'r Ymddiriedolaethau Natur, gyda ffrydiau refeniw newydd sy'n galluogi cynyddu effeithiau elusennol.








# Pum Blaenoriaeth Sy'n Galluogi


Rydym wedi nodi pum blaenoriaeth sy'n galluogi sy'n cynrychioli'r sylfeini pwysicaf sydd arnom eu hangen i'n galluogi i wireddu ein nodau strategol a chyflawni'r camau sy'n trawsnewid a nodir yn y Strategaeth hon.

Mae'r camau hyn yn ffurfio proses barhaus sy'n sail i'n gallu ar y cyd i gyflawni ein gweledigaeth o fyd naturiol ffyniannus.



B1

# Cael trefn ar ein tŷ ein hunain.







**Cynhyrchu ynni adnewyddadwy**
A'i storio ar y safle gan leihau ôl troed carbon a chostau





**Dim ond drwy sicrhau bod ein tŷ ni mewn trefn y gall yr Ymddiriedolaethau Natur wneud cyfraniad dilys at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol.**

Fel perchnogion tir mawr, defnyddwyr ynni, defnyddwyr dŵr, darparwyr arlwyo, trefnwyr digwyddiadau, darparwyr lleoliadau, gweithredwyr fflyd o gerbydau, addysgwyr, manwerthwyr, ac ymgynghoriaethau (i enwi dim ond rhai o'n gwasanaethau), yn ogystal â chyflogwyr ac aelodau o'r gymuned fusnes, rydym yn cydnabod bod angen i ni arwain drwy esiampl o ran sut rydym yn rheoli ein hamgylchedd ein hunain a'n heffeithiau cymunedol.

*Byddwn yn cydweithio i sefydlu rhaglen gynhwysfawr i leihau ein hôl troed amgylcheddol a phennu targedau uchelgeisiol mewn perthynas â meysydd allweddol fel lleihau allyriadau carbon, defnyddio cemegau ar dir, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.*

Byddwn yn ymfalchïo mewn bod yn fudiad ffederal a datblygu egwyddorion cyffredin a fframwaith a rennir ar gyfer gwasanaethau craidd, i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu gwario lle mae eu hangen fwyaf.

Byddwn yn datblygu modelau cydweithredu newydd i alluogi mwy o gyd-fynd a chysondeb gyda'n dull o weithredu gyda materion allweddol fel cyfrifo carbon, diogelu, a defnyddio plaladdwyr.





**Gwefru ceir trydan**
Helpu i adeiladu'r rhwydwaith a chefnogi pontio

B2

# Sicrhau bod ein gwarchodfeydd natur a'n hasedau tir yn sylfaen i adferiad byd natur.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn rheoli rhai o'r gwarchodfeydd natur a'r cynefinoedd bywyd gwyllt gorau ar draws y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, ar y tir ac yn y môr. Bydd ein gwaith i ddiogelu a gwella'r safleoedd hyn bob amser yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar y cyd ac maent yn rhan hanfodol o sicrhau nad yw ein bywyd gwyllt mwyaf agored i niwed yn diflannu am byth.

Fodd bynnag, mae ein gwarchodfeydd, yn gynyddol, wedi datblygu i fod y darnau olaf o gynefin bywyd gwyllt sydd ar ôl o fewn tirwedd sy'n dirywio. Rhaid rheoli'r ardaloedd hyn fel y blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer adferiad byd natur, ac fel mannau i bobl ymuno â ni a chreu perthnasoedd â byd natur o fewn eu cymunedau.

Byddwn yn ceisio adfer, ehangu a chysylltu gwarchodfeydd bach ac ynysig, gan weithio mewn partneriaeth â pherchnogion tir, ffermwyr, datblygwyr ac awdurdodau lleol i sicrhau bod mwy o dir yn cael ei reoli ar gyfer byd natur.

*Byddwn yn ceisio gwella'r ffordd mae ein gwarchodfeydd natur yn rhyngweithio ac yn integreiddio â'r tir a'r morlun ehangach a gyda chymunedau lleol, lle gallant chwarae rhan strategol wrth gysylltu bywyd gwyllt a phobl.*








B3

# Datblygu polisïau clir a chyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Yn ystod y 10 mlynedd nesaf, byddwn yn wynebu heriau newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael ystod eang o safbwyntiau polisi clir fel mudiad ar faterion allweddol.**

Bydd llawer o'r heriau hyn a'r materion sy'n dod i'r amlwg yn gymhleth ac yn amrywio yn lleol, gan effeithio'n wahanol ar Ymddiriedolaethau Natur unigol. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn bydd angen ehangder ein gwybodaeth ar y cyd i lunio ymatebion polisi credadwy a dilys.

Drwy fabwysiadu safbwynt clir a hyderus dros natur, rydym yn cofleidio ein hymrwymiad i sefyll dros natur a chynnwys eraill i gysylltu â ni ac ymuno â'n hymdrechion. Byddwn yn defnyddio ein gallu cynnull a diplomataidd i ddatblygu ffordd safonol o drafod a chytuno ar bolisïau ar draws ein Mudiad, fel bod yr Ymddiriedolaethau Natur yn gallu bod yn llais cryf, unedig dros natur.

*Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein safbwyntiau'n seiliedig ar ddata o ansawdd uchel, arbenigedd lleol a dadansoddiad technegol, a'n bod yn cael ein harwain gan dystiolaeth yn ein heiriolaeth polisi.*

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid sy'n cofnodi ac yn monitro bywyd gwyllt lleol, fel y rhwydwaith o Ganolfannau Cofnodion Ecolegol, a gydag aelodau ehangach o'r cyhoedd sy'n casglu data amhrisiadwy am gyflwr natur, er enghraifft drwy Shoresearch, ein rhaglen arolygu rynglanwol, a Seasearch, ein harolygon islanwol sy'n cael eu harwain gan ddeifwyr. Mae'r ymdrechion gwyddoniaeth y dinesydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod data cadarn a chredadwy'n cael eu defnyddio i fonitro cyflwr ein bywyd gwyllt.









# Buddsoddi mewn rhwydwaith staff a gwirfoddolwyr medrus ac amrywiol, a chreu diwylliant dysgu ar draws y mudiad.



**Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur gyfoeth o staff medrus, llawn cymhelliant ac ymroddedig, gyda gwybodaeth leol helaeth am gynefinoedd, rhywogaethau, defnydd tir ac ymgysylltu â'r cyhoedd, a gefnogir gan rwydwaith o wirfoddolwyr ymroddedig.**

Bydd yr heriau y byddwn yn eu hwynebu yn ystod y 10 mlynedd nesaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaethau ddatblygu sgiliau staff mewn meysydd newydd a meysydd sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys enillion net, datrysiadau seiliedig ar natur, cyngor ar reoli tir, gweithredu cymunedol, a lles.

Byddwn yn hyfforddi ein staff mewn meysydd cadwraeth natur newydd a'r rhai sy'n datblygu, yn nodi lle mae gwybodaeth arbenigol wedi'i lleoli o fewn y mudiad, ac yn hyrwyddo rhwydwaith o rannu i sicrhau bod pob Ymddiriedolaeth yn gallu cael yr wybodaeth a'r sgiliau i fanteisio i'r eithaf ar effaith gyfunol ein mudiad.

Byddwn yn cefnogi ein staff i wella'r broses o gydlynu a defnyddio ein rhwydweithiau o wirfoddolwyr a chefnogwyr, gan gynyddu'r ffyrdd y gall pobl a chymunedau gyfrannu at adferiad byd natur.

Rydym yn gwybod hefyd bod angen i ni ddod yn fwy perthnasol i fwy o bobl drwy gynyddu amrywiaeth ein Hymddiriedolwyr a'n staff, gan adlewyrchu'r gymdeithas ehangach rydym yn rhan ohoni.

Bydd yr Ymddiriedolaethau Natur yn meithrin diwylliant lle mae ein staff, ein Hymddiriedolwyr a'n gwirfoddolwyr yn Wyllt Am Gynhwysiant, lle mae cynwysoldeb a pharch wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud er mwyn i bawb fod yn hwy eu hunain a chyflawni eu llawn botensial.

*Bydd ein mudiad yn cael ei arwain gan arweinwyr amrywiol, cynhwysol ac effeithiol sy'n cofleidio'r her o gynyddu ein hamrywiaeth a'i gyfraniad at ein mudiad ac at fywyd gwyllt. Byddwn yn cynyddu ein hymgysylltu â chymunedau amrywiol, er mwyn deall yn well, a goresgyn, y rhwystrau sy'n atal mynediad i fyd natur ac ymgysylltu ag ef.*









B5

# Siarad gyda llais beiddgar a hyderus, gan gynyddu ein heffaith a'n dylanwad ymhellach.

**Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur statws cadarn yn y gymuned amgylcheddol, yn gysylltiedig â hygrededd ac enw da fel llais dros natur. Ein cryfder yw ein bod wedi ein gwreiddio mewn cymunedau lleol, amrywiol, o bentrefi cefn gwlad i hybiau trefol a chymunedau arfordirol, gyda ffocws lleol cadarn wedi'i leoli o fewn rhwydwaith a dylanwad cyfunol.**

*Wrth i ni ddod at ein gilydd yn fwy fel mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur, o dan fframwaith strategol cyffredin, gan weithio tuag at nodau a rennir, mae cyfle i ni godi ein proffil, a siarad â llais cadarnach a mwy beiddgar a hyderus – yn lleol ac ar y cyd.*

Bydd hyn yn ein galluogi i gynyddu ein heffaith a'n dylanwad ymhellach, a chreu brand cadarn, cyfarwydd ar ei newydd wedd sy'n siarad gyda gwerthoedd ac amcanion craidd ein mudiad ac yn helpu i fynegi gwerth cymdeithasol byd natur.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag ystod eang o rwydweithiau a phartneriaethau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, ac yn ehangu ein cyrhaeddiad i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan wneud defnydd llawn o blatfformau digidol i foderneiddio ein hymgysylltu â'r cyhoedd a chydnabyddiaeth. Byddwn yn cynyddu ein presenoldeb a'n proffil mewn trefi a dinasoedd, i ymgysylltu ag ehangder llawn y cymunedau lle rydym yn gweithio, ac yn mynegi hyn yn weithredol yn ein cyfathrebu a'n delweddaeth.

Byddwn hefyd yn gweithredu fel hwylusydd i rymuso unigolion a chymunedau i siarad â'u llais eu hunain ac yn hyderus am eu pryderon a'u huchelgeisiau ar gyfer natur a'u bywydau. Drwy sicrhau bod ein platfformau ar gael iddynt byddwn yn sicrhau bod lleisiau niferus yn cael eu clywed a safbwyntiau lluosog yn cael eu cyflwyno.










*Mae gan fywyd gwyllt werth cynhenid, gan ddod â lliw, harddwch a rhyfeddod i'n bywydau ni i gyd.*

# Darganfod yr Ymddiriedolaethau Natur

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn rhannu'r gwerthoedd a'r credoau sylfaenol a ganlyn, sy'n sail i'n gwaith ar draws y mudiad.



## Ein gwerthoedd a rennir

### Angerdd

Mae popeth rydym yn ei wneud yn cael ei sbarduno gan ein dyhead i wneud y byd yn lle gwell. Ein hangerdd dros fyd natur yw'r prif gymhelliant ar gyfer ein tîm medrus, llawn cymhelliant ac ymroddedig. Rydym yn canolbwyntio ein hegni ar ble rydym mewn sefyllfa unigryw i gael yr effaith fwyaf ar gyfer bywyd gwyllt, gan ein galluogi i weithio gyda phwrpas a ffocws.

### Parch

Rydym yn ymddwyn gyda pharch at natur, parch at bobl, a pharch at amrywiaeth. Rydym yn gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth o fewn ein cymunedau, gan fod yn sensitif yn lleol a hefyd sicrhau ein bod yn cael effaith y tu hwnt i'n ffiniau.

### Ymddiriedaeth

Rydym yn ceisio dod o hyd i dir cyffredin i ddechrau. Rydym yn derbyn bod gwahaniaeth, cystadleuaeth a gwrthdaro yn bodoli, ond rydym yn gweithio'n agored, yn gydweithredol a gyda goddefgarwch.

### Integriti


Rydym wedi ymrwymo i dryloywder a chynhwysiant yn ein gweithredoedd a'n prosiectau, gan gyd-ddylunio i sicrhau'r effaith fwyaf i fyd natur. Byddwn bob amser yn cynnal ein gwerthoedd a'n credoau ac yn siarad gwirionedd yn wyneb grym.


### Cryfder mewn amrywiaeth

Rydym yn cynnwys 47 o sefydliadau annibynnol sy'n gweithio fel un mudiad, sy'n meddu ar wybodaeth ddigyffelyb am y bywyd gwyllt a'r systemau naturiol yn eu cymunedau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Alderney. Rydym yn dathlu ein gwahaniaethau ac yn gweithio yn unol â'n cryfderau cyffredin.

### Gweithredu'n bragmatig

Rydym yn ceisio newid radical a meddwl yn feiddgar, ond rydym yn cael ein harwain gan dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau ac yn argyhoeddedig mai gweithio gyda phartneriaid a chymunedau yw'r ffordd orau o sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gyfer byd natur.



*Rydym yn rhan o'r byd naturiol, ac mae bywyd gwyllt yn berthnasol i bob rhan o'n bywydau; mae popeth rydym yn ei wneud yn effeithio arno, ac mae'r amgylchedd naturiol yn effeithio ar ein hiechyd, ein cyfoeth a'n cyflwr meddwl.*

## Pwy ydym ni

**Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn fudiad ar lawr gwlad o bobl o ystod eang o gefndiroedd sy'n credu bod arnom angen natur a bod natur ein hangen ni. Mae gennym fwy nag 870,000 o aelodau, mwy na 35,000 o wirfoddolwyr, 2,000 o staff a 600 o ymddiriedolwyr.**

Ceir 46 o Ymddiriedolaethau Natur unigol, pob un ohonynt yn elusen annibynnol seiliedig ar le gyda'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun, a ffurfiwyd wrth i grwpiau o bobl ddod at ei gilydd a gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol, gan ddechrau lle maent yn byw ac yn gweithio.

Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn rhan o ffederasiwn yr Ymddiriedolaethau Natur ac yn aelod corfforaethol o Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT), elusen gofrestredig ar ei liwt ei hun a sefydlwyd yn 1912 ac un o aelodau sefydlu IUCN – yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur.

Gyda'i gilydd yr enw ar y ffederasiwn hwn o 47 o elusennau yw'r Ymddiriedolaethau Natur.

Mae Strategaeth 2030 yn nodi'r effaith rydym yn gobeithio ei chael drwy gydweithio yn ystod y degawd hollbwysig sydd i ddod.

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau

**Rôl yr Ymddiriedolaethau Natur yw sicrhau adferiad byd natur lle maent yn gweithredu, grymuso pobl i weithredu dros natur o fewn eu cymunedau, a chydweithio ag eraill i greu cymdeithas lle mae natur o bwys ac ysgogi newid ar raddfa'r dirwedd ar gyfer bywyd gwyllt.**

Rôl RSWT – yr elusen ganolog – yw sicrhau llais cyfunol cadarn ar gyfer bywyd gwyllt, helpu i gydlynu gwaith rhwng yr Ymddiriedolaethau Natur unigol, ac arwain datblygiad y mudiad a'r ffederasiwn yn ei gyfanrwydd.

Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn cytuno i ymddwyn yn unol â'r gwerthoedd, yr ymddygiadau, yr egwyddorion a'r prosesau sydd wedi'u datgan yn nogfen *Yr Ymddiriedolaethau Natur: Ffyrdd o Weithio.*

## Ble rydym yn gweithredu

**Yr Ymddiriedolaethau Natur yw'r unig elusen ar gyfer byd natur sydd wedi'i sefydlu ledled y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron. Bydd yr heriau deuol o fioamrywiaeth yn dirywio a hinsawdd yn cynhesu yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydweithio ar draws y ffiniau gwleidyddol, gweinyddol a sefydliadol sy'n bodoli o fewn a rhwng gwledydd y DU a Thiriogaethau Dibynnol y Goron.**

Mae 37 o Ymddiriedolaethau Natur yn Lloegr a phum Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru, yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Natur yr Alban yn yr Alban, Ymddiriedolaeth Natur Ulster yng Ngogledd Iwerddon, Ymddiriedolaeth Natur Alderney ar Ynysoedd y Sianel ac Ymddiriedolaeth Natur Manaw ar Ynys Manaw. Er bod pob Ymddiriedolaeth Natur yn annibynnol, rydym yn unedig yn ein pwrpas cyffredin i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, i rymuso pobl i weithredu dros natur, ac i greu cymdeithas lle mae natur o bwys.

Rydym yn dathlu sofraniaeth yr Ymddiriedolaethau Natur unigol ac yn grymuso ein gilydd i wneud penderfyniadau o fewn awdurdodaeth pob Ymddiriedolaeth Natur, gan barchu annibyniaeth a hawl Ymddiriedolaethau i sefydlu eu polisïau a'u dulliau gweithredu eu hunain yn unol â Strategaeth yr Ymddiriedolaethau Natur.


Rydym yn cydnabod ac yn parchu y gall gwahaniaethau rhwng Ymddiriedolaethau Natur unigol godi o ganlyniad i wahaniaethau rhanbarthol, cenedlaethol a gweithredol. Er y gall hyn arwain at sefyllfaoedd heriol weithiau i'n Mudiad, ein gwahaniaethau yw ein cryfder, gan greu gofod ar gyfer arloesi ac arbrofi.

*Rydym yn cytuno i gydweithio, gyda pharch, penderfyniad ac yn ddidwyll, i ddod o hyd i ddatrysiadau yn unol â'n gwerthoedd fel Mudiad, ac i oresgyn rhwystrau strategol, gwleidyddol a thechnegol i gyflawni ein gweledigaeth gyffredin o fyd naturiol ffyniannus, gyda'n bywyd gwyllt a'n cynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr mewn sbarduno newid byd-eang, a phawb wedi'u hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros natur.*





# Yr Ymddiriedolaethau Natur




*Mae'r amgylchedd naturiol yn wynebu bygythiad aruthrol a chynyddol, lle rydym ni'n byw ac ym mhob cwr o'r byd.*

## Creu ein heffaith a'n dylanwad ar y cyd

**Drwy gydweithio fel yr Ymddiriedolaethau Natur a ffrwyno ein heffaith ar y cyd, gallwn ddychmygu, ymgyrchu ac eiriol dros newid gwirioneddol.**

Byddwn yn cyflawni mwy o effaith ar y cyd ac yn cael mwy o ddylanwad drwy adeiladu ar ein llwyddiannau, adrodd straeon llawn cymhelliant, a grymuso cymunedau lleol i ddod yn gyfryngau newid.

Gan fanteisio ar waith yr Ymddiriedolaethau Natur, byddwn yn adeiladu ar ein hymgyrchoedd strategol i gynulleidfaoedd torfol i ysgogi'r aelodau presennol a chreu sylfaen gadarnach o drefnu cymunedol – Tim Gwyllt - gan arwain at weithredu mwy lleol dros natur, gan gynnwys mwy o ymgysylltu â phrosiectau gwyddoniaeth y dinesydd.

Bydd hyn yn arwain at gymunedau mwy cynhwysol, croesawgar, amrywiol a chynyddol o bobl yn dylanwadu ar adferiad byd natur, gan arwain at newid cadarnhaol, diriaethol i natur a phobl a gwella'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i waith yr Ymddiriedolaethau Natur.

Gan drawsnewid y ffordd y mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn rheoli ein seilwaith digidol, bydd y straeon hyn am adferiad byd natur sydd wedi'i bweru gan bobl a gwybodaeth gynyddol am fyd natur mewn ardaloedd lleol yn grymuso cymunedau lleol ymhellach, yn sail i gynnwys deinamig wedi'i bersonoli ar gyfer cynulleidfaoedd segment, ac yn ysbrydoli mwy o bobl i ymuno â'r Tîm Gwyllt i gydnabod y newid cadarnhaol sy'n cael ei gyflawni gan yr Ymddiriedolaethau Natur.

Bydd hyn yn denu mwy o gefnogaeth gyhoeddus i'r Ymddiriedolaethau Natur, a byddwn yn dangos hynny i hybu ein heffaith a'n dylanwad, cryfhau brand yr Ymddiriedolaethau Natur yn y DU ac yn rhyngwladol, a galluogi ein hymgyrchoedd ar gyfer cynulleidfaoedd torfol i greu sylfaen gynyddol gadarnach a mwy amrywiol o drefnu cymunedol.






## Cyfeiriadau


1.
IPCC (2021) **Climate Change 2021: The Physical Science Basis. Contribution of Working Group I to the Sixth Assessment Report of the Intergovernmental Panel on Climate Change** [Masson-Delmotte, V., P. Zhai, A. Pirani, S.L. Connors, C. Péan, S. Berger, N. Caud, Y. Chen, L. Goldfarb, M.I. Gomis, M. Huang, K. Leitzell, E. Lonnoy, J.B.R. Matthews, T.K. Maycock, T. Waterfield, O. Yelekçi, R. Yu, and B. Zhou (eds.)]. Cambridge University Press. In Press.

2.
Dasgupta P (2021) **The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review** *Llundain Trysorlys EM*

3.
United Nations Decade on Ecosystem Restoration 2021-2030 https://www.decadeonrestoration.org/

4.
Hayhow DB, Eaton MA, Stanbury AJ, Burns F, Kirby WB, Bailey N, Beckmann B, Bedford J, Boersch-Supan PH, Coomber F, Dennis EB, Dolman SJ, Dunn E, Hall J, Harrower C, Hatfield JH, Hawley J, Haysom K, Hughes J, Johns DG, Mathews F, McQuatters-Gollop A, Noble DG, Outhwaite CL, Pearce-Higgins JW, Pescott OL, Powney GD and Symes N (2019) **The State of Nature 2019**. *The State of Nature Partnership.*

5.
IPBES (2019) **Global assessment report on biodiversity and ecosystem services of the Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services.** *IPBES secretariat, Bonn, Yr Almaen*

6.
Waldon A, et al. (2020) **Protecting 30% of the planet for nature: costs, benefits and economic implications.** *Working paper analysing the economic implications of the proposed 30% target for areal protection in the draft post-2020 Global Biodiversity Framework*

7.
Cox DT & Gaston KJ (2018). **Human–nature interactions and the consequences and drivers of provisioning wildlife.** *Philosophical Transactions of the Royal Society B: Biological Sciences, 373(1745), 20170092.*

8.
IPCC (2021) AR6 **Climate Change 2021: The Physical Science Basis** https://www.ipcc.ch/report/ar6/wg1/


Design: karen@eighty-five.co.uk

## Cydnabyddiaeth am y lluniau


**Eleanor Church**
**Adrian Clarke**
**Andrew Crowley**
**Gillian Day**
**Penny Dixie**
**Helena Dolby**
**Guy Edwardes/2020VISION**
**Emyr Evans**
**Danny Green**
**Ben Hall/2020VISION**
**Broni Lloyd-Edwards**
**Tom Marshall**
**Alex Mustard/2020VISION**
**David Nichols**
**Richard Osborne**
**David Parkyn**
**Ben Queenborough**
**Gavin Repton**
**Jason Samuels**
**Robert Thompson**
**Peter Tinsley**
**Terry Whittaker/2020VISION**


*Gall pawb wneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd gwyllt ac elwa o hynny. Does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr i wneud gwahaniaeth.*

Yr Ymddiriedolaethau Natur
The Kiln
Mather Road
Newark
Nottinghamshire
NG24 1WT

www.wildlifetrusts.org
enquiries@wildlifetrusts.org
01636 677711

Elusen Gofrestredig
Rhif 207238

Dilynwch ni

wildlifetrusts
@wildlifetrusts
@thewildlifetrusts
thewildlifetrusts

© Yr Ymddiriedolaethau Natur 2022